

# POLISI DEFNYDDION FFONAU SYMUDOL (DISGYBLION) YSGOL EIFIONYDD



## Amcanion

Yn unol â dyletswyddau'r ysgol a'n cyfrifoldeb i sicrhau trefn ac addysg o ansawdd, o **1 Medi, 2021** mae'r ysgol yn atal disgyblion rhag dod a ffonau symudol i'r ysgol gydag ambell eithriad oherwydd diogelwch, lles neu anghenion dysgu ychwanegol.

## Gweithredu'r polisi

- Ni chaniateir i ddisgyblion ag eithrio caniatâd swyddogol o dan amgylchiadau arbennig ddod a ffôn symudol i safle'r ysgol (gan gynnwys ei thiroedd neu'r adeilad).
- Os clywir neu gwelir ffôn symudol ar safle'r ysgol fe fydd y ffonau yn cael eu cymryd oddi wrth y disgybl yn syth a'i gadw yn ddiogel ym mhrif swyddfa'r ysgol gyda chofnod o enw y disgybl a dyddiad y weithred. Mae hyn hefyd yn cynnwys ffonau symudol a welir mewn pocedi neu o fewn bag ysgol.
- Fe fydd methiant i roi y ffôn i aelod o staff yn syth yn arwain at gyfnod o un arhosiad i mewn – detention dros amser cinio. Fe fydd parhad i wrthod i gydymffurfio yn arwain at aros i mewn ar ôl ysgol.
- Gall methiant llwyr i adael i staff yr ysgol gymryd y ffôn ac ail ymddangosiad neu ddefnydd o'r ffôn eto yn ystod y diwrnod arwain i waharddiad allanol o ddiwrnod am fethiant sylfaenol i ddilyn rheolau'r ysgol.
- Dychwelir y ffôn symudol i'r disgybl ar ddiwedd yr hanner tymor am 3:30 o'r brif swyddfa.
- Gall rhieni, gwarchodwr neu oedolyn sy'n aelod estynedig o'r teulu gasglu'r ffôn o'r brif swyddfa ar unrhyw adeg sy'n gyfleus yn ystod y tymor ysgol.
- Rhoddir caniatâd i ddisgyblion gysylltu gartref o'r brif swyddfa yn ystod amser egwyl, cinio neu ar ddiwedd y diwrnod ysgol ac os yw'n argyfwng ar unrhyw adeg.
- Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb os ydi ffôn symudol yn cael ei gollu neu ei dorri tra ar safle'r ysgol.

## Eithriadau

- Gall Pennaeth Blwyddyn neu aelod o'r Tim Rheoli rhoi caniatad penodol dros dro i ddisgybl gario ffôn symudol am resymau lles. Er enghraifft salwch difrifol yn y teulu.
- Gall y Cydlynnydd ADY neu aelod o'r Tîm Rheoli rhoi caniatâd parhaol i ddisgyblion gario ffôn symudol am resymau lechyd neu addysgol e.e. monitro clefyd siwgr neu fel offeryn i gynorthwyo'r cof.
- Rhoddir caniatâd i ddisgyblion sy'n mynychu taith ysgol ddod a ffôn symudol i safle'r ysgol er mwyn gwella diogelwch yn ystod y daith.
- Ar ddiwrnod addysgu oddi ar safle rhoddir caniatâd i ddisgyblion sy'n derbyn addysg i ffwrdd o'r safle e.e. Ysgol Glan y Môr, Ysgol Ardudwy neu Goleg Meirion Dwyfor ddod a ffôn symudol i safle'r ysgol er mwyn gwella Diogelwch yn ystod y daith. Rhaid sicrhau fod y ffôn wedi ei droi i ffwrdd a'i gadw o'r golwg tra ar safle'r ysgol.

## Camddefnyddio Ffonau Symudol

### **Yr Ochr Gyfreithiol –**

*O dan Adran 1 o'r Ddeddf Cyfathrebu'n Faleisus 1998, mae'n dor-cyfraith anfon neges amheus, anweddus neu fygythiol i unrhyw berson, boed yn llythyr ysgrifenedig neu'n electroneg. Yn yr un modd mae'n anghyfreithlon anfon neges o'r fath ar y ffôn hefyd.*

*Y gosb am dor-cyfraith o'r math hwn yw uchafswm o 6 mis o garchar, a/neu ddirwy hyd at £5000.*

*Ymhellach, os bydd y neges yn awgrymu y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn erbyn y diffynnydd, gall y gosb fod hyd at 5 mlynedd o garchar. Os bydd y neges yn hiliol gall y gosb fod hyd at 7 mlynedd.*

**Mae achosion o fwlio 'cyber yn cael eu cyfeirio at sylw'r Heddlu.**

**Ni chaniateir chwaith i ddisgyblion dynnu lluniau na ffilmio disgyblion eraill nac aelodau o staff yr ysgol ar unrhyw declyn yn cynnwys ffonau symudol.**